# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 24 Awst 2020

## SL(5)593 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 fel y Rheoliadau sydd, yng Nghymru, yn llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae Rheoliadau 2020 yn cyflwyno'r gofyniad i fyrddau iechyd gynnal asesiadau o anghenion fferyllol ac, o ganlyniad, maent hefyd yn newid y meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau gan yr unigolion hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Mae asesiad o anghenion fferyllol yn ddatganiad o'r asesiad y mae'n rhaid i fwrdd iechyd ei wneud, bob 5 mlynedd o leiaf, o'r anghenion yn ei ardal am wasanaethau fferyllol a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru. Yr effaith y bwriedir i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol ei chael yw gwella'r drefn o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhoi ystyriaeth gadarn i anghenion fferyllol eu poblogaethau, a sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd yn fwy agos â'r anghenion hynny.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006  
**Fe'u gwnaed ar:**  
**Fe'u gosodwyd ar:** 06 Awst 2020  
**Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)**

# SL(5)597 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i'r cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn pennu bod casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bobl at ddiben rhoi gwybod i’r rhai a all fod wedi dod i gysylltiad â’r coronafeirws yn “mesur rhesymol” y gall bod yn ofynnol ei gymryd gan weithdai, mangreoedd busnes, mannau addoli ac ati i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws;
- yn egluro mai dirwy (ac nid cyfnod yn y carchar) yw uchafswm y gosb am dorri’r gofyniad i gau mangre ar ôl i hysbysiad cau mangre gael ei ddyroddi.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
**Fe’u gwnaed ar:** 14 Awst 2020
**Fe’u gosodwyd ar:** 14 Awst 2020
**Yn dod i rym ar:** 17 Awst 2020